**CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDDOGED A MAENAN A GYNHALIWYD YN YSGOL LLANDDOGED NOS LUN MAWRTH, 27ain 2022**

**PRESENNOL**
Cyng. Arwel L. Jones (Cadeirydd), Cyng. John Owen, Cyng Nerys Dobson, Cyng. Hefin Martin,
Cyng. Alun Morris, Delyth Algieri (clerc).
**YMDDIHEURIADAU**
Cyng. Anwen Jones, Cyng. Dylan Jones, Cyng. Eifion Williams, Cyng Austin Roberts

Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r cyngor cymuned i'r cyfarfod.

**CADARNHAU'R COFNODION**
Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd ar y 28ain o Chwefror, 2022.

**MATERION YN CODI O'R CYFARFOD DIWETHAF**
Ni chodwyd unrhyw fater o'r cofnodion diwethaf.

**ETHOLIADAU**
Cwblhawyd aelodau y cyngor y ffurflenni enwebu ar gyfer yr etholiadau 5ed o Fai 2022. Cadarnhawyd bydd y clerc yn mynd ar ffurflenni i mewn i'r Cyngor Sir, Bodlondeb Conwy wythnos nesaf.

**CYNNAL A CHADW**
1) Twll ar y Ffordd Efail Uchaf ar y tro wrth yr Eglwys Llanddoged.
2) Tyllau yn y ffordd ar y tro fyny allt yr Abbey rhwng Wigfan at Ty'r Ysgol Maenan.

**UNRHYW FATER ARALL**
**HOLIADUR YSGOL GYNRADD LLANDDOGED**
Atgoffwyd aelodau y cyngor i gwblhau yr holiadur anfonwyd allan drwy e-bost gan y Pennaeth Ysgol Llanddoged yn gofyn barn yr aelodau ar beth maent yn teimlo y ddylsai'r ysgol fod i plant a'r gymuned leol..

**PONT DOLGARROG**
Derbyniwyd gwybodaeth gan Cyng. Austin Roberts fod Dŵr Cymru'n cynnal sesiwn wybodaeth galw heibio yng nghanolfan gymunedol Dolgarrog ar Ebrill 1af rhwng 2 o'r gloch yr prynhawn a 6 o'r gloch yr hwyr er mwyn arddangos eu cynlluniau ar gyfer adnewyddu pont bibell Dolgarrog.

**HYSBYSFWRDD MAENAN**
Nododd y clerc bod angen atgyweirio yr hysbysfwrdd yn Maenan, mae'r bwrdd i roi hysbysebion sydd tu mewn i'r hysbysfwrdd wedi pydru ac wedi disgyn allan. Pasiwyd aelodau y cyngor i'r clerc holi Mr Elwyn Williams contractwr lleol i edrych ar y gost o drwsio yr hysbysfwrdd ac edrych ar sefyllfa cyflwr yr hysbysfwrdd yn Llanddoged hefyd.

Arwyddwyd (Cadeirydd) ……………………………… Dyddiad …………………………………………………….